**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL A GYNHALIWYD**
**AR DDYDD IAU 15/06/217 YN LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Gyngh. Clare Hughes bawb i'r cyfarfod misol.

2. **YN BRESENNOL**
Y Gyngh. Clare Hughes (Cadeirydd); Y Gyngh. Angharad Jones (Dirprwy-Gadeirydd); Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Non Jones; Y Cyngh. Wil Lewis; Y Cyngh. Gareth Owen, Y Cyngh. Doug Rowbotham &'r Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies.
Aelod o'r Cyhoedd: Alun Price-Jones; Bill Messer.
Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCC yr Heddlu) John Evans.

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd Y Cyngh. John Jones am ei anallu i fynychu'r Cyfarfod.

4. **MATERION YN YWNEUD Â'R HEDDLU**
**4.1** **Mae plwm wedi** diflannu yng nghyffiniau Ffair Rhos.
**4.2** **Hysbyswyd y Cyngor Cymuned** bod cyffuriau'n gysylltiedig â lloches Dolgoed. Gwnaed trefniadau bod y person a oedd wedi adrodd y broblem, a oedd yn dymuno aros yn ddi-enw, yn adrodd y mater at sylw'r Heddlu.
**4.3** **Ystyriwyd cyflymder cerbydau'n dod i fewn ac yn gadael** y Pentref. **PENDERFYNWYD** cysylltu a Cyngor Sir Ceredigion i ofyn tybed a ellid cynnwys y ddwy fynedfa i'r Pentref o fewn yr Adolygiad Terfyn Cyflymder Cyngor Sir Ceredigion. (Mynedfa Ffair Rhos wedi ei asesu).

5. **DATGAN DIDDORDEB:** *Dim wedi ei ddatgan.*

6. **Cofnodion y cyfarfod o'r 18fed o Fai 2017.** Cynigiwyd (Y Gyngh. Angharad Jones); **EILIWYD** (y Gyngh. Mair Jones) a **PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir. Cytunwyd ac arwyddwyd y cofnodion fel rhai cywir gan Y Cadeirydd y Gyngh. Clare Hughes.

7. **MATERION YN CODI**
**7.1 Etholiad Lleol 2017 :**
**1**. **Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad:** Ward Caron Uwch Clawdd:
Hysbysiad gan Miss Bronwen Morgan, Swyddog Canlyniadau CSC, fod y canlynol wedi eu hethol yn Gynghorwyr Cymuned heb gystadleuaeth:
Clare Hughes; Angharad Jones; Mair Jones; Gareth Owen.
(CYFANSWM = 4) (UN SEDD WAG)
Derbyniwyd cyngor oddi wrth Cyngor Sir Ceredigion yn dweud os nad oes digon o ymgeiswyr i lanw pob sedd wag ar ôl etholiad, mae Adran 21, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985, yn caniatau i'r aelodau etholedig gyfethol aelodau i lenwi'r seddi sy'n weddill os oes ganddynt gworwm.
**PENDERFYNWYD** arddangos rhybyddion yn yr ardal yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb. i'w hystyried ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.
**PENDERFYNWYD** arddangos y rhybudd o fewn Facebook y pentref.

**7.2** **Derbyniwyd gwrthwynebiad gan** Mr Mervyn Botwood a Ms Sonia Fletcher, ynghylch sut oedd Cofnodion Cyngor Cymuned Ystrad Fflur, yn cael eu cofnodi yn ystod y cyfarfod misol o'r 18fed o Fai 2017. Ar ôl grym drafodaeth **CYTUNWYD** ar y camau canlynol:
- Anfon Cofnodion Cyngor Cymuned Ystrad Fflur at sylw Un Llais Cymru;
- Ceisio cyngor annibynnol a diduedd; &
- Darparu Adborth i'r Cyngor Cymuned yn ystod y cyfarfod nesaf sef Cyfarfod Agored.

Bu i'r Cadeirydd ymgynghori ag Un Llais Cymru.
Derbyniwyd ymateb gan Dr Del Morgan, Swyddog Datblygu, Un Llais Cymru a oedd yn darllen,

Mae'r cofnodion yn rhai da a chymeradwy. Yr unig beth alla i weld ynddynt y byddwn yn newid byddai'r frawddeg sy'n delio gyda chofnodion y cyfarfod cynt. Byddwn yn awgrymmu newid "Penderfynwyd eu bod yn gofnod cywir " …" i "Cytunwyd ac arwyddwyd fel cofnod cywir …" – gan fod angen i'r cadeirydd lofnodi'r cofnodion sy'n cael eu cytuno (yn y fan a'r lle).
Rwy'n atodi'r FAQ ar gofnodion rhag ofn bod dim copi ar gael yno – gall rhannau o hwn gael eu dyfynnu mewn unrhwy ateb(ion) i bobl sy'n holi am gynnwys y cofnodion. (Atodiad 1).
**CYNIGIWYD** (y Gyngh. Mair Jones); **EILIWYD** (y Gyngh. Angharad Jones) a **CYTUNWYD i DDERBYN** canllawiau Un Llais Cymru. Nodwyd consyrn Mr Mervyn Botwood a Ms Sonia Fletcher.

7.3 **Paneli o Wydr wedi eu torri o fewn y Lloches Bws**: trwsio 2 ddarn sydd wedi torri. **Adroddodd** Y Gyngh. Clare Hughes y gellir o bosibl defnyddio tâp i atgyweirio'r broblem.

7.4 **Cyflwr dirywiol y bont-droed fetel** sy'n croesi'r Afon Teifi ac wedi ei lleoli wrth gefn Dolau Bach ac a gyfeiriwyd ati fel y "Bont Werdd".
**DIM gwybodaeth pellach ar gael** gan fod Mr Eifion Jones Cyngor Sir Ceredigion ar ei wyliau. Adroddwyd bod rhwd yn broblem.
Dywedwyd bod llygod mawr yn amlwg ar lan yr afon. Trafodwyd y llwybr ar hyd glan yr afon. **PENDERFYNWYD** cyfeirio at y gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Gofrestrfa Tir ynghynt yn y flwyddyn mewn perthynas â'r darn o dir a elwir yn Glan yr Afon ac sy'n ymestyn at ardal Ystafell Wen / Dolau Bach a Bronceiro.

7.5 **Cais am: Bont i Gerddwyr ochr yn ochr â phont hanesyddol Pontrhydfendigaid**
Mae'r Gyngh. Clare Hughes wedi trefnu Deiseb…. "Mae'r holl draffig sy'n defnyddio ffordd y B4343 a'r ffaith nad oes modd gweld traffig sy'n dod tuag atoch yn hawdd yn gwaethygu'r broblem, gan wneud y bont yn beryglus i gerddwyr, yn ogystal â'r rhai sy'n defnyddio sgwters a phramiau. Er mwyn gwella ansawdd bywyd trigolion, ymwelwyr, yr hen a'r ifanc, yr abl a'r rhai llai abl, rydym yn galw ar y cyngor sir i gefnogi'r cynllun arfaethedig ac ymchwilio i dir addas ar gyfer y datblygiad". *Dim Datlygiadau i'w hadrodd.*

7.6 **Arolwg Parc Adroddiad Rospa 2107:** trefnwyd ymwneud ag Arolwg parc yn ystod mis Mehefin 2017 am ffî o £66.50.

7.7 **Grant Gwyrdd, CS Ceredigion:** Adroddwyd bod y Banc Boteli yn aml yn llawn i'r ymylon a bod poteli yn cael eu gadael ger y Banc Poteli. **PENDERFYNWYD** darganfod tybed a ellid arddangos arwyddion ger y Banc Poteli o dan nawdd y Grant Gwyrdd i annog pobl i ddileu'r arfer hwn. Gallai Swyddog Gwarchod yr Amgylchedd CSC ddarparu arwyddion mewn perthynas â gwibdipio (fel rhan o'r grant) ac y mae'n barod i weithio gyda'r Cyngor Cymuned i'w gosod yn y mannau perthnasol. **PENDERFYNWYD** cysylltu â ChSC i geisio trefnu cyfarfod safle gyda'r Swyddog perthnasol i drafod ymhellach. Y Cynghorydd Clare Hughes a'r Gyngh Laura Jones i fynychu'r cyfarfod.

7.8 **Cŵn yn baeddu o fewn y Pentref**: gwybodaeth parthed chwistrell cŵn yn baeddu: ddim ar gael yn ystod y cyfarfod hwn. Roedd 2 fin ar gynnig yn y pentref ond teimlwyd bod angen biniau ychwanegol. **PENDERFYNWYD**: Y Gyngh. Clare Hughes i gysylltu â CSC parthed biniau cŵn yn baeddu.

7.9 **Cinio Blynyddol:** i'w gynnal ar Nos Wener 16eg o Fehefin yn Nhafarn y Teifi, Ffair Rhos a gydlynwyd gan y Cynghorydd John Jones.

7.10 **Cais ar gyfer Daliwr Amserlenni o fewn Llochesi-Bws:** Gohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion, sef Shan Witts yn datgan y bydd swyddog yn ymweld

â'r llochesi i ganfod pa ddalwyr a fydd yn addas oddi fewn. Disgwylir gosod yr amserlenni o fewn y dalwyr ar ol hynny.

**7.11 Torri gwair ym Maesydderwen:** Holodd Y Gyngh. Angharad Jones mewn perthynas â thorri gwair o fewn ardal tu flaen i Stâd Maesydderwen. Cadarnhaodd Tai Ceredigion nad ydynt ar hyn o bryd yn cynnal unrhyw feysydd glaswelltog yn Maesydderwen. Roedd angen rhagor o wybodaeth ynghylch yr ardal o dan sylw; byddai Tai Ceredigion yn edrych eto ar y sefyllfa ac os byddai unrhyw ddarn yn eiddo Tai Ceredigion ychwanegir at y rhaglen torri gwair. Adroddwyd bod Cyngor Sir Ceredigion ond wedi torri yr ardal o dan eu hawdurdodaeth unwaith yn ystod y tymor - i gysylltu â Mr John Hadlow am ragor o wybodaeth.

**7.12 Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha o dan ofalaeth Cyngor Cymuned Ystrad Fflur:** Trefnwyd ynghynt fod Cadeirydd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur yn cyflwyno'r wobr yn ystod Diwrnod Gwobrwyo'r Ysgol (£10 neu £10x2 petai dau ddisgybl yn gymwys). **PENDERFYNWYD** darganfod gwybodaeth pellach am y Diwrnod Gwobrwyo a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 20 Gorff. 17.

**8. GOHEBIAETH**

**8.1 Llifogydd / dŵr yn cronni yng Nghwrt y Wern**: Ymateb a dderbyniwyd gan y Landlord, Tai Ceredigion yn datgan ei fod yn bwriadu gwneud gwelliannau i'r maes parcio yng Nghwrt y Wern ac wedi ceisio am ganiatâd cynllunio. Ni gynhwysir o fewn amserlen eleni er bod cynlluniau ar y gweill i'w wneud cyn gynted â phosibl ar ôl y flwyddyn hon. Penderfynwyd gofyn i Dai Ceredigion tybed a allent ddod â'r dasg ymlaen gan fod pobl i gynnwys y rhai a oedd yn gaeth i'r tŷ wrth i bobl i gynnwys tŷ-rwymo eu troi allan o'u cartrefi oherwydd llifogydd.

**8.2 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1 Bu i Mrs Enid Hughes ymwneud â'r Archwiliad Mewnol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2016-17.** Nodwyd ei sylwadau. Bu i'r Cadeirydd a'r Swyddog Cyfrifol Ariannol arwyddo'r Ffurflen Ariannol Allanol i'w hanfon at BDO Stoy Hayward.

**9.2 Cyflog y Clerc Mehefin 2017** £155.07.

**9.3 Tollau Ei Mawrhydi Mehefin** 2017 £38.76

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar.

**10.2 Cyngor Sir Ceredigion: Cais Cynllunio: A170441**: y Bwriad: . Lleoliad: Cefngaer, Pontrhydfendigaid, SY25 6EJ. Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim gwrthwynebiad.

**11. UFA**

**11.1 Datganwydd llongyfarchion i Garin Evans, Llys Meurig** a Nia Rees, Hafan dau cyn-ddisgybl Ysgol y Bont ar eu henwebu'n Brif Swyddogion, Ysgol Henri Richard, Tregaron.

**11.2 Tocynnau ar gyfer Abaty Ystrad Fflur:** Trafodwyd y sefyllfa flaenorol.

**11.3 Creu gwefan ar gyfer y Pentref/Cymuned: PENDERFYNWYD** darganfod gwybodaeth pellach.

**11.4 Enwebu unigolion ar gyfer gwobr pentref:** ystyriwyd unigolion i'w henwebu.

**11.5 Mae llifogydd "fflach"** yn broblem gyferbyn â 8 Heol Teras: graean a cherrig yn amlwg. i adrodd at sylw CSC.

***Daeth y Cyfarfod i ben am*** **9.15pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Dydd Iau 20$^{ed}$ o ORFFENNAF 2017 at 7pm.**

==================================================

(Arwyddwyd/Dyddiad )